# Canllaw ar Ddyfeisiau Arbed Ocsigen




baywater HEALTHCARE

NHS
Providing NHS services

# Cynnwys

Sut i Gysylltu Dyfais Arbed Ocsigen **3**

Gosod eich Cyflenwad Ocsigen **4**

Diffodd y Cyflenwad Ocsigen **5**

Gwirio Pŵer Batri eich Dyfais Arbed Ocsigen **5**

Newid y Batris **6**

Am ba hyd y mae Silindrau yn para wrth ddefnyddio Dyfais Arbed Ocsigen **7**

Datrys Problemau **8**





ENHANCING LIVES

# Sut i Gysylltu Dyfais Arbed Ocsigen




Rhowch y silindr yn y bag a ddarperir




Rhowch y ddyfais arbed ocsigen yn y boced




Cysylltwch y lleihäwr llif ar y tiwbiau torchog â’r cysylltydd ar y silindr




Defnyddiwch y clamp i ddiogelu’r cysylltiad




Cysylltwch ben y tiwb torchog â chysylltiad y silindr ar y ddyfais atal ocsigen




Cysylltwch diwb y pigynnau trwynol â’r cysylltiad ar ochr y ddyfais atal ocsigen

**Rhybudd**

Nid yw dyfeisiau arbed ocsigen yn addas ar gyfer cleifion dan saith oed.

Peidiwch â defnyddio dyfais arbed ocsigen pan fyddwch chi’n cysgu. Peidiwch â byrhau eich tiwbiau.

Dim ond wrth wisgo pigynnau trwynol y dylech chi ddefnyddio dyfais arbed ocsigen Nid yw dyfeisiau arbed ocsigen yn gweithio gyda masgiau.

# Gosod eich Cyflenwad Ocsigen




Rhowch y pigynnau trwynol yn eich trwyn




Trowch y ddyfais arbed ocsigen ymlaen drwy bwyso'r botwm 'on/off' unwaith




Gan ddefnyddio'r botymau + − , dewiswch y gosodiad yn unol â chyfarwyddyd eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol, a phwyswch OK i gadarnhau




Trowch y falf ar ochr y silindr i 'on/+', os yw'n bresennol




Trowch y silindr ocsigen ar gyfradd llif o 4 litr y funud (lpm)




Dechreuwch anadlu drwy'r pigynnau trwynol

**Rhybudd**

Cofiwch fod yn rhaid gosod y silindr ar gyfradd llif o 4 lpm, a bod y ddyfais arbed ocsigen wedi'i gosod ar y gyfradd llif cywir.

# Diffodd y Cyflenwad Ocsigen

1. Trowch y falf 'On/Off' yn glocwedd yn araf ar y silindr, nes ei fod ar y gosodiad 'Off'
2. Daliwch ati i anadlu drwy'r pigynnau trwynol nes i chi deimlo nad oes mwy o ocsigen yn dod drwodd (mae hyn yn rhyddhau'r gwasgedd yn y tiwb)
3. Tynnwch y pigynnau trwynol o'ch trwyn
4. Diffoddwch y ddyfais atal ocsigen

**Rhybudd**
Os yw'r silindr yn cael ei ddefnyddio heb y ddyfais, cofiwch ei osod yn ôl i'r gyfradd llif cywir bob amser

# Gwirio Pŵer Batri eich Dyfais Arbed Ocsigen

Pwyswch y botwm 'on/off' a gwiriwch y dangosydd batri



Dylai batri'r ddyfais arbed ocsigen bara pedair wythnos a mwy. Gwiriwch lefel y batri cyn defnyddio eich dyfais arbed ocsigen.

Sicrhewch fod gennych chi fatris sbâr bob amser. Os yw pŵer y batri yn isel, ystyriwch newid y batris cyn gadael eich cartref. Bydd batris yn cael eu darparu gyda'r ddyfais arbed ocsigen, eich cyfrifoldeb chi fydd eu newid nhw.

# Newid y Batris

Mae'r ddyfais arbed ocsigen angen dau fatri AA

I newid y batri, dilynwch y camau canlynol:

1. Gwnewch yn siŵr bod y ddyfais wedi'i diffodd
2. Tynnwch y gorchudd batri
3. Tynnwch y batris allan yn ddiogel
4. Rhowch y batris newydd i mewn yn ôl cyfarwyddyd y diagram ar y ddyfais
5. Ar ôl newid y batris, gwiriwch y pŵer

**Rhybudd**
Defnyddiwch fatris alcalïaidd yn unig mewn dyfais arbed ocsigen.

Sylwch: Mae eich dyfais arbed ocsigen yn eiddo i Baywater Healthcare, ac ar fenthyg i'r GIG



# Am ba hyd y mae Silindrau yn para wrth ddefnyddio Dyfais Arbed Ocsigen

## Am ba hyd y mae silindr Freedom® 400 yn para

| Cyfradd llif (lpm) | Yn fras, am ba hyd y mae'r silindr yn para wrth ddefnyddio dyfais arbed ocsigen |
|---|---|
| 0.5 | 35 awr |
| 1 | 21 awr |
| 2 | 10 awr |
| 3 | 7 awr |
| 4 | 5 awr |
| 5 | 4 awr 20 munud |
| 6 | 3 awr |
| 8 | 2 awr 20 munud |

## Am ba hyd y mae silindr Freedom® 300 yn para

| Cyfradd llif (lpm) | Yn fras, am ba hyd y mae'r silindr yn para wrth ddefnyddio dyfais arbed ocsigen |
|---|---|
| 0.5 | 24 awr |
| 1 | 15 awr |
| 1.5 | 8 awr 30 munud |
| 2 | 7 awr |
| 3 | 5 awr |
| 4 | 3 awr |
| 6 | 2 awr |
| 8 | 1 awr 20 munud |

Wrth ddefnyddio dyfais arbed ocsigen, gall hyd oes y silindrau amrywio yn dibynnu ar weithgarwch a chyfradd anadlu'r claf.

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Datrys problemau

Wrth anadlu i mewn gan ddefnyddio dyfais arbed ocsigen, dylech chi glywed sŵn hisian. Os nad ydych chi'n clywed y sŵn hisian, neu os nad ydych chi'n teimlo unrhyw ocsigen yn dod o'r ddyfais arbed ocsigen, dylech chi ddilyn y camau canlynol:

- Gwnewch yn siŵr bod y ddyfais arbed ocsigen wedi'i gosod ar y gyfradd llif gywir, a bod y silindr wedi'i droi at 4 lpm.
- Gwnewch yn siŵr fod y tiwbiau wedi'u cysylltu'n gywir, a bod pŵer yn y batris

Os nad ydych chi'n dal i glywed sŵn hisian, neu'n teimlo nad yw'r ocsigen yn dod drwy'r ddyfais arbed ocsigen, tynnwch y ddyfais a chysylltwch y pigynnau trwynol yn uniongyrchol â'r silindr. Yn unol â chyfarwyddyd eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol, dylid gosod y silindr i'r gyfradd llif gofynnol. Ffoniwch Baywater Healthcare.

## Larymau

Batri isel - bydd larwm ysbeidiol yn canu, newidiwch y batris.

Gwasgedd ocsigen isel – edrychwch ar gynnwys y silindr i sicrhau bod digon o ocsigen ar ôl i allu defnyddio'r ddyfais arbed ocsigen. Os nad yw hyn yn datrys y larwm, gwnewch yn siŵr nad yw'r tiwb troellog glas wedi plygu.

Larwm diffyg anadl neu ddatgysylltu – mae'r larwm yn canu pan nad yw'r ddyfais arbed ocsigen yn synhwyro pryd rydych chi'n cymryd eich anadl. Gwnewch yn siŵr nad yw eich pigynnau trwynol wedi blocio neu blygu. Os na fydd hyn yn datrys y broblem, tynnwch y ddyfais arbed ocsigen, cysylltwch eich pigynnau trwynol yn uniongyrchol â'r silindr, a'u defnyddio ar y llif a gyfarwyddir gan eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol. Ffoniwch eich Gweithiwr Gofal Iechyd Proffesiynol am gyngor.

# Nodiadau

(ar agor 24 awr y dydd, 7 diwrnod yr wythnos ar gyfer galwadau brys)

# Nodiadau

# Nodiadau



I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


**Baywater Healthcare**
Wulvern House
Electra Way
Crewe
Cheshire
CW1 6GW

Ffoniwch: 0800 373580

healthuk@baywater.co.uk

@BaywaterHealth

Baywater Healthcare

Baywater Healthcare


baywater HEALTHCARE

ENHANCING LIVES

16/294/UK-MAY21 v2